# Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer

## *13/1/2025*

**Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Emyr Jones, Tyly Roberts, Geraint Roberts, W D Williams,

Cynghorydd Alan Jones Evans

Lis Puw (Clerc)

1. **Croesawyd** pawb gan y Cadeirydd a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones.
2. **Cyhoedd:** Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Buddiant** Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.
4. **Cofnodion Tachwedd 11, 2024** – Cadarnhawyd eu cywirdeb
5. **Materion y Clerc:**
   i. Anfoneb Gwefan: Talwyd hwn yn unol a chyfarwyddyd y Cynghorwyr. Cytunwyd i gael trafodaeth gyda chlerc Llanycil can mai 6 gwaith y flwyddyn y mae hwythau yn cyfarfod hefyd.
   ii. Anfoneb torri gwrych y Fynwent - : Talwyd hwn yn unol a chyfarwyddyd y Cynghorwyr.
   iii. Taliad ico : mae hwn wedi ei wneud trwy debyd uniongyrchol.
   iv. Cytunodd y Cynghorwyr i atgoffa Cymdeithasau o'r angen i wneud cais am nawdd cymunedol cyn dechrau mis Mawrth.
   v. Cymeradwywyd y taliad am dorri gwrych y fynwent a chynnal y wefan.
   vi. Cytunwyd i holi barn Cyngor Cymuned Llanycil am gost cynnal y wefan, o ystyried mai 6 gwaith y flwyddyn mae'r cynghorau bach yn cyfarfod.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd am y trafferthion a'r oedi a wnaethpwyd gan y ddwy storm a'r eira yn Nhachwedd, a'r eira a'r rhew diweddar. Roedd ffyrdd cul wedi cau, erydr eira a loriau ail-gylchu yn sownd ac yn y blaen wedi peri trafferthion enbyd. Dywedodd ei fod yn pwyso ar swyddogion i roi ystyriaeth amserol i'r cymoedd yn yr ardal. Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith fel arfer dros y gymuned.
7. **Materion lleol** y Cynghorwyr Soniwyd am gerbydau diarth a aeth i drafferthion yng Nghwm y Glyn adeg yr eira ac a greodd trafferthion i bobl leol. Addawodd y Cynghorydd i wneud ymholiadau am *railings* a godwyd yn agos i'r ffordd sy'n creu trafferthion i gerbydau amaethyddol.
8. **Materion ariannol blynyddol**

i. Adolygwyd a mabwysiadwyd Rheoliadau Ariannol diwygiedig (yn seiliedig ar fodel Un Llais Cymru)
ii. Ystyriwyd Asesiad o Risgiau Ariannol y Cyngor. Nodwyd yr angen
iii. Ystyriwyd y Polisi Yswiriant a chytunwyd fod y Cyngor yn fodlon gyda'r hyn mae cwmni Zurich yn ei gynnig.
iv. Archwiliad 2023-24: Mewnol ac Allanol. Derbyniwyd Adroddiad boddhaol iawn gan yr Archwilwyr Mewnol. Nid yw'r Adroddiad allanol wedi cyrraedd eto.
v. Penodi Archwilydd Mewnol 2025-26: Cytunwyd i ofyn i Archwilwyr Cyngor Gwynedd wneud y gwaith.
vi. Adolygwyd Cyflogau: dywedodd y Clerc ei bod yn fodlon gyda'r cyflog fel y mae. Mae'r cyflog yn cael ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r cyfraniad at gynnal swyddfa ym mis Rhagfyr.
vii. Derbyniwyd gwybodaeth lawn am y sefyllfa ariannol bresennol a'r hyn a ddisgwylir erbyn diwedd Mawrth 2025. Nodwyd y gwariant a fu ar greu llwybr ar hyd y darn uchaf o'r fynwent yn ystod y flwyddyn. Nodwyd hefyd bod y Cyngor yn amcanu i drwsio giat y fynwent ac yn parhau i fonitro cyflwr wal y fynwent. Nodwyd hyn wrth ystyried y Gyllideb am y flwyddyn 2025-26.
viii. Lluniwyd Cyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2025-26.
ix. Ystyriwyd lefel y Praesept 2025-26 a chytunwyd ar y ffigwr o £5,000. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £1.73 yn y dreth ar gyfer cartref Band D.

9. **Cynllunio** – Ystyried cais NP5/70/6H (Maesafallen). *Ni roddwyd sylw ar y cais*. Nodwyd pryderon trigolion am nifer y cerbydau trwm trwy bentref Rhosygwaliau ac ar hyd y ffordd gul. Nodwyd fod rhan o'r ffordd eisoes wedi dangos gwendid; nodwyd pryderon am y bont (Gradd II*).

   **Cytunwyd** i holi swyddogion Parc Cenedlaethol Eryri am eglurhad ar gais NP5/70/50G (Canolfan Awyr Agored Rhosygwaliau)

10. **Gohebiaeth** – Bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth i gais am arian gan Llen y Llannau a Theatr Derek Williams yn y cyfarfod nesaf.

    **Coed Yw:** Bydd arbenigwyr o Parc Cenedlaethol Eryri yn plannu coed yw yn y fynwent cyn diwedd y mis.

11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** 10/3/25

Amser gorffen: 9.10pm